

### *Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin*

#### *Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl ar-lein hwn yn parhau i feithrin y sgiliau beirniadol, ymarferol a dadansoddi sydd eu hangen ar fyfyrwyr i weithio'n rhagweithiol o fewn y gweithlu ieuenctid ac, yn benodol, ym maes gwaith ieuenctid. Dyma'r trydydd modiwl dysgu seiliedig ar waith, a'r olaf, yn y cwrs BA (Anrh) Gwaith Ieuenctid (B55), ac mae'n adeiladu ar y wybodaeth, y sgilau a'r ymarfer a ddatblygwyd mewn modiwlau dysgu seiliedig ar waith blaenorol. Rhaid i'r myfyrwyr fodloni'r gofyniad sylfaenol, sef chwe awr o gyswllt wyneb yn wyneb uniongyrchol â phobl ifanc bob wythnos mewn lleoliad priodol, a chael caniatâd gan eu sefydliad i ddefnyddio eu gwaith ar gyfer dysgu seiliedig ar waith. Gofynnir iddynt gadarnhau eu lleoliad gwaith a nifer o ofynion ychwanegol wrth gofrestru ar gyfer y modiwl.

#### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol ym maes gwaith ieuenctid neu waith gyda phobl ifanc, (e.e. tystiolaeth o gymhwyster mewn maes pwnc priodol megis BA (Anrh) Addysg Ieuenctid a Chymunedol neu BA (Anrh) Addysg Anffurfiol).
- cymhwyster gwaith ieuenctid proffesiynol a gydnabyddir gan y JNC (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon) neu ddilysiad gan y CLD (Yr Alban)
- profiad proffesiynol o weithio gyda phobl ifanc (mae o leiaf ddwy flynedd o brofiad ôl-gymhwyso yn ofynnol)
- deall mentrau, polisi, theori ac ymarfer cyfredol ym maes gwaith ieuenctid a gweithio gyda phobl ifanc, ynghyd â rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr gwahanol yn yr amrywiaeth o leoliadau sy'n ymwneud â gwaith gyda phobl ifanc
- ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth ym maes 'gweithio gyda phobl ifanc' ym mhedair gwlad y DU (sy'n berthnasol i'r wlad yr ydych yn bwriadu tiwtora ynddi)
- dealltwriaeth o ymchwil ym maes gwaith ieuenctid a gwaith gyda phobl ifanc ac o ffyrdd y gall ymchwil helpu i ddatblygu ymarfer
- y gallu i gefnogi myfyrwyr o amrywiaeth eang o leoliadau ac sydd ag amrywiaeth eang o brofiadau addysgol, gan eu helpu i wneud cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer
- profiad o'r amgylchedd ar-lein ar gyfer addysgu a dysgu, gan gynnwys ymwybyddiaeth o adnoddau amgylchedd dysgu rhithwir

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu neu gefnogi dysgu oedolion mewn cyd-destun ymarfer neu fel rhan o raglen dysgu seiliedig ar waith

Noder: Penodir i'r swydd hon yn amodol ar gwblhau'n foddhaol wiriad cofnodion troseddol priodol ar gyfer y wlad lle rydych yn gweithio.

#### *Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

|                                                                        |    |
|------------------------------------------------------------------------|----|
| Credydau a ddyfernir i'r myfyrwyr am gwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: | 60 |
| Nifer o aseiniadau a gyflwynir gan y myfyrwyr:                         | 7  |
| Dull o gyflwyno'r aseiniadau:                                          | 1b |
| Lefel gofynion TGCh:                                                   | 3  |
| Nifer o fyfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:                 | 18 |
| Band cyflog:                                                           | 7  |
| Nifer o oriau yr wythnos addysgu sy'n debygol:                         | 6  |